**Eitem Agenda : 7**

**AWDURDOD TÂN GOGLEDD CYMRU**

**PANEL GWEITHREDOL**

**22 EBRILL 2004**

**Adroddiad gan y Clerc**

**DIRPRWYO PWERAU I'R PRIF SWYDDOG TÂN**

**DIBEN YR ADRODDIAD**

1. I adolygu dirprwyaethau i'r Prif Swyddog Tân.

**CEFNDIR**

2. Mae'r dirprwyaethau presennol i'r Prif Swyddog Tân wedi hel ar hap dros gyfnod o amser. Mae'r agenda foderneiddio ar gyfer y gwasanaeth tân ac achub, gan gynnwys diddymu Adran 19 o Ddeddf Gwasanaethau Tân 1947, cytuno ar Gynllun Integredig Rheoli Risg cyntaf yr awdurdod a chyflwyno Mesur y Gwasanaethau Tân ac Achub, yn golygu bod adolygiad o ddirprwyaethau yn amserol.

**CYNGOR**

3. Fel egwyddor gyffredinol, y Prif Swyddog Tân ddylai gael y cyfrifoldeb am bob mater gweithredol ac am wneud penderfyniadau yn unol â'r polisïau a'r strategaethau a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod Tân, gan gynnwys y Cynllun Integredig Rheoli Risg.

4. Bydd ymwneud yr aelodau yn angenrheidiol mewn materion gweithredol unigol megis:

   (a) penodiadau i uwch swyddi, a materion personél sy'n effeithio ar staff o'r fath;
   (b) penderfyniadau sy'n gofyn am gyllid ychwanegol nad oes modd ei ddiwallu o gyllidebau presennol;
   (c) penderfyniadau sy'n debygol o fod yn destun trafod gwleidyddol a chyhoeddus arwyddocaol, megis cau gorsaf dân. (Fodd bynnag, dylai'r trefniadau gweithredol mewn gorsaf, gan gynnwys lefelau staffio a chyfarpar ac oriau gweithredu fod yn fater i'r Prif Swyddog Tân yn unol â'r safonau a'r polisïau yn y Cynllun Integredig Rheoli Risg.)

5. Mae'r atodiad yn rhestru'r dirprwyaethau presennol a'r rhai arfaethedig sy'n dilyn yr egwyddorion uchod ac yn gyson â'r trefniadau a fabwysiadwyd gan lawer o awdurdodau lleol. Maent yn rhoi ystyriaeth i'r Mesur Gwasanaethau Tân ac Achub. Byddai rhai o'r dirprwyaethau arfaethedig yn gofyn am ddiwygio rhai o'r polisïau presennol megis y gweithdrefnau ar gyfer apeliadau neu newidiadau eraill i ddeddfwriaeth megis Rheoliadau Disgyblu, ac o'r herwydd ni ellid eu gweithredu nes y bydd trefniadau newydd wedi'u mabwysiadu yn dilyn ymgynghoriad gyda chynrychiolwyr staff. Byddai'r ddirprwyaeth gyffredinol arfaethedig sy'n ymwneud â materion personél yn dirprwyo pob mater o'r fath i'r Prif Swyddog Tân ar wahân i achosion lle mae deddfwriaeth neu gytundebau lleol neu genedlaethol yn mynnu cyfraniad aelodau ac ar wahân i faterion sy'n berthynol i uwch swyddi.

**ARGYMHELLIAD**

6. Argymhellir bod y Panel Gweithredol yn ystyried y diwygiadau arfaethedig i'r dirprwyaethau fel y cânt eu gosod allan yn yr atodiad, ac yn llunio argymhelliad ar gyfer cyfarfod yr Awdurdod Tân ym mis Gorffennaf.

**Atodiad**
**Mesur GTA = Mesur Gwasanaethau Tân ac Achub**

| **Dirprwyaeth bresennol a dyddiad y penderfyniad** | **Dirprwyaeth arfaethedig** |
|---|---|
| Mae rhai o'r dirprwyaethau presennol yn ymwneud â dirprwyaethau cynyddol ond mae llawer ohonynt yn rhai mud.<br><br>Y cynnig yw i'r Prif Swyddog Tân gael pŵer cyffredinol i ddirprwyo ei swyddogaethau fel y gwêl orau. | Gall y Prif Swyddog Tân ddirprwyo unrhyw un o'i swyddogaethau i aelod o staff o Awdurdod Tân Gogledd Cymru; a gall drefnu i'w swyddogaethau gael eu cyflawni gan weithwyr o awdurdodau lleol eraill (gan gynnwys gweithwyr awdurdodau tân eraill). |
| Heb ei nodi | Gweithredu pwerau atodol dan adran 3 o Ddeddf Gwasanaethau Tân 1947, ar wahân i benodi aelodau etholedig i gyrff allanol megis Cyngor Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ayyb.<br><br>Pan fydd y Mesur GTA yn dod yn ddeddf, ei newid i: Gweithrediad pwerau achlysurol dan adran 5, Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004, ar wahân i benodi aelodau etholedig i gyrff allanol megis Cyngor Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ayyb. |
| Heb ei nodi | Pan fydd y Mesur GTA yn dod yn ddeddf:<br><br>Yn unol â'r Cynllun Integredig Rheoli Risg ac unrhyw bolisïau sydd wedi eu cymeradwyo gan yr Awdurdod Tân, penderfyniadau am gyflawni swyddogaethau'r awdurdod tân dan adrannau 6 i 12 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004. |
| Penderfyniadau ynghylch cefnogaeth i Gymdeithasau'r Gwasanaeth Tân a'u swyddogaethau; gan gynnwys y defnydd o gludiant swyddogol a threuliau allan-o-boced i bobl sy'n mynychu cyfarfodydd Cymdeithasau o'r fath; penderfyniadau ynghylch | Penderfyniadau ynghylch cefnogaeth i Gymdeithasau'r Gwasanaeth Tân a'u swyddogaethau, gan gynnwys y defnydd o gludiant swyddogol a threuliau allan-o-boced i bobl sy'n mynychu cyfarfodydd Cymdeithasau o'r fath; penderfyniadau ynghylch |

| | |
|---|---|
| cefnogaeth i swyddogaethau cymunedol megis nosweithiau tân gwyllt. (13/2/1996) | cefnogaeth i swyddogaethau cymunedol.<br><br>Pan fydd y Mesur GTA yn dod yn ddeddf, ei hepgor. |
| Heb ei nodi | Gwneud, amrywio neu ddirymu cynlluniau atgyfnerthu gyda phersonau eraill, yn unol ag adrannau 2 a 12 Deddf Gwasanaethau Tân 1947.<br><br>Pan fydd y Mesur GTA wedi dod yn ddeddf: rhoi'r canlynol yn ei le: Gwneud, amrywio neu ddirymu unrhyw drefniadau gyda phersonau eraill yn unol ag adrannau 13 i 17 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004. |
| Penderfyniadau ynghylch pa ddigwyddiadau penodol ddylai fod yn agored i dâl; y pŵer i gynyddu'r taliadau am alwadau gwasanaethau arbennig yn flynyddol (fel arfer ar raddfa chwyddiant). (17/6/1996) | Penderfyniadau ynghylch pa ddigwyddiadau penodol ddylai fod yn agored i dâl; y pŵer i gynyddu'r taliadau am alwadau gwasanaethau arbennig yn flynyddol, yn unol â pholisi'r Awdurdod ar godi tâl.<br><br>Pan fydd y Mesur GTA wedi dod yn ddeddf, rhoi'r canlynol yn ei le: penderfyniadau am godi tâl dan adran 19 Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004, yn unol â pholisi'r Awdurdod ar godi tâl. |
| Heb ei nodi | Pan fydd y Mesur GTA wedi dod yn ddeddf, penderfyniadau ar weithredu pwerau ar neu o dan y môr dan adran 20 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004. |
| Heb ei nodi | I'r graddau nad ydynt eisoes wedi'u cwmpasu yn yr uchod: penderfyniadau am y defnydd gweithredol o staff, cyfarpar ayyb a'r defnydd o adeiladau yn unol â'r Cynllun Integredig Rheoli Risg. Nid |

| | |
|---|---|
| | yw'r ddirprwyaeth hon yn cynnwys y pŵer i gau gorsaf dân yn barhaol os nad yw hynny'n benodol wedi cael ei gynnwys yn y Cynllun neu wedi bod yn destun penderfyniad gan yr Awdurdod Tân. |
| Heb ei nodi | Pan fydd y Mesur GTA wedi dod yn ddeddf:<br><br>Cytundebau ayyb. mewn perthynas â chyflenwad dŵr dan adran 5 Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004. |
| Gweithredu pwerau archwilio, gorfodi, cynghorol ac ymgynghorol o ran atal tân dan amrywiol Ddeddfau, gyda phŵer i ddirprwyo swyddogaethau i'r Uwch Swyddog Diogelwch Tân neu Brif Swyddog arall. [29/9/1997] | Gweithredu pwerau archwilio, gorfodi, cynghorol ac ymgynghorol o ran atal tân. Mae'r ddirprwyaeth hon yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i swyddogaethau'r Awdurdod Tân dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch ayyb yn y Gweithle 1974 a'r rheoliadau a wnaed dani, Deddf Adeiladu 1984, Deddf Tai 1985, Deddf Rhagofalon Tân 1971, Deddf Drwyddedu 2003, Deddf Hapchwarae 1968, Deddf Diogelwch Meysydd Chwaraeon 1975, Deddf Sinemâu 1985, Deddf Theatrau 1968 |
| Mae pwerau'r Prif Swyddog Tân mewn perthynas â phenodiadau a disgyblaeth yn cael eu cyfleu yng nghylch gwaith y Panel Gweithredol, 2001.<br><br>Ar hyn o bryd, mae'r Panel Gweithredol yn ymdrin ag apeliadau a materion pensiwn ar gyfer yr holl staff. Byddai'r ddirprwyaeth arfaethedig yn gosod y cyfrifoldeb am y rhan fwyaf o'r materion o'r fath gyda'r Prif Swyddog Tân.<br><br>Gweler paragraff 5 o'r adroddiad. | Yn unol â'r polisïau a fabwysiadwyd ar hyn o bryd gan yr Awdurdod Tân ac ar wahân i'r adegau pan mae deddfwriaeth neu unrhyw gytundebau cenedlaethol neu leol perthnasol yn mynnu cyfraniad yr aelodau, penderfyniadau ar yr holl faterion personél gan gynnwys penodiadau, disgyblu, pensiynau, apeliadau ac awdurdodaethau dan adrannau 43 i 45 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 ayyb.<br><br>Nid yw'r ddirprwyaeth hon yn berthnasol i benodiad neu apeliadau gan y Prif Swyddog Tân, Dirprwy Brif Swyddog Tân, Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol a'r Prif Swyddog Cynorthwyol (Gwasanaethau |

| | |
|---|---|
| | Corfforaethol). Nid yw'r ddirprwyaeth hon chwaith, yn ymwneud â gweithdrefnau disgyblaethol a gychwynnwyd yn erbyn y Prif Swyddog Tân nac i faterion yn ymwneud â thâl neu bensiwn y Prif Swyddog Tân. |
| Y pŵer i ganiatáu, tynnu neu ddiddymu caniatâd i swyddogion gael ail swyddi, yn ddibynnol ar wahanol amodau. (28/10/1996) | Y pŵer i ganiatáu, tynnu neu ddiddymu caniatâd i swyddogion gael ail swyddi. (Caiff hwn ei hepgor os cytunir ar ddirprwyo cyffredinol y materion personél.) |
| Y pŵer i amrywio gofyniadau seibiant dan bolisi'r awdurdod ar seibiant mabwysiadu. (16/6/1997) | Y pŵer i amrywio gofyniadau seibiant dan bolisi'r awdurdod ar seibiant mabwysiadu, mamolaeth a thadolaeth. (Caiff hwn ei hepgor os cytunir ar ddirprwyo cyffredinol y materion personél.) |
| Penderfyniadau ynghylch gostwng neu atal tâl swyddogion sydd yn absennol o'u gwaith oherwydd salwch, yn dilyn ymgynghoriad gyda'r Cadeirydd neu'r Is-Gadeirydd. (22/6/1998) | Penderfyniadau ynghylch gostwng neu atal tâl swyddogion sydd yn absennol o'u gwaith oherwydd salwch. (Caiff hwn ei ddileu os bydd cytundeb ynghylch dirprwyo cyffredinol y materion personél.) |